26 Mehefin 2025

**Annwyl**

**ATISN: 24829 - Cais Rhyddid Gwybodaeth Cap Budd-dal Dau Blentyn**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 18 Mehefin 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. pob darn o ohebiaeth rhwng Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru, a Keir Starmer, Prif Weinidog y DU, parthed y cap budd-dal dau blentyn rhwng 6 Awst 2024 ac 17 Mehefin 2025.
2. pob darn o ohebiaeth rhwng Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru, a Rachel Reeves, Canghellor y DU, parthed y cap budd-dal dau blentyn rhwng 6 Awst 2024 ac 17 Mehefin 2025.
3. pob darn o ohebiaeth rhwng Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru, a Liz Kendall, Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau y DU, parthed y cap budd-dal dau blentyn rhwng 6 Awst 2024 ac 17 Mehefin 2025.
4. unrhyw ohebiaeth perthnasol arall rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater dan sylw.

Ar gyfer pwynt 4 uchod, byddwn yn ystyried y cais i gynnwys yr un ystod ddyddiadau â phwyntiau 1 i 3.

**Ein hymateb**

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas â phwyntiau 1 i 3.

O ran pwynt 4, hoffwn dynnu eich sylw at wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol o dan ATISN 24621 ([Datganiad rhyddid gwybodaeth 24621: Cap dau blentyn | LLYW.CYMRU]).

Ceir yn Atodiad 1 lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gyd-gadeiryddion y Gweithlu Tlodi Plant dyddiedig 29 Mai 2024. Noder, er bod y dyddiad yn nodi 29 Mai 2024, gallaf gadarnhau mai 29 Mai 2025 oedd dyddiad yr ohebiaeth hon.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir